# Ymddiriedolaethau elusennol

Mae miloedd o ymddiriedolaethau elusennol bach ar hyd a lled Cymru. Cafodd nifer sylweddol o'r rhain eu sefydlu flynyddoedd lawer yn ôl, ac efallai y bydd angen diweddaru eu diben gwreiddiol.

Gall fod yn broblem ddifrifol i ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gronfa ond na allant gyflawni ei diben elusennol ac sydd hefyd yn ymwybodol y gallai pobl leol fod yn cael cymaint mwy o fudd ohoni.

Dyma ble y gallwn helpu.

Gall y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru chwarae rôl allweddol pan fydd ymddiriedolwyr cronfa ymddiriedolaeth yn ei chael hi'n anodd. Gyda'n trefniadau llywodraethu a gwybodaeth arbenigol am anghenion lleol ar hyd a lled Cymru, rydym mewn sefyllfa unigryw i gynnig cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o adfywio neu bennu diben o'r newydd i ymddiriedolaethau.

Gallwn eich helpu i roi grantiau neu y gallwch drosglwyddo'r gronfa atom er mwyn i ni ei rheoli.



### Trosglwyddo cronfeydd ymddiriedolaethau

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Elusennau er mwyn sicrhau y caiff cronfeydd elusennol eu trosglwyddo'n ddidrafferth i ni. Yna, gallwn adfywio'r gronfa a sicrhau bod cymunedau lleol yn cael budd ohoni, yn unol â bwriad gwreiddiol y rhoddwr a sefydlodd y gronfa.

Gall y rhoddwr neu'r ymddiriedolwyr ddewis bod yn rhan o'r ymddiriedolaeth o hyd, heb faich cyfrifoldebau ariannol a chyfreithiol. Gallwn gadw diben elusennol ac enw gwreiddiol y gronfa er mwyn sicrhau bod y gymynrodd wreiddiol yn parhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Cronfeydd cleientiaid segur neu heb eu hawlio

Gall trosglwyddo cyfrifon segur neu gyfrifon heb eu hawlio i'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru helpu i drawsnewid y balansau yn asedau ar gyfer cymunedau yng Nghymru. Drwy drosglwyddo cronfeydd segur neu heb eu hawlio, gallwch nodi pa achos, thema neu ardal ddaearyddol yr hoffech wneud grantiau ar eu cyfer neu adael i ni bennu i ble mae'r arian yn mynd ac i bwy.

Am fwy o wybodaeth cyslltwch Katy Hales, Cyfarwyddwr Dyngarol,
trwy e-bostio katy@communityfoundationwales.org.uk neu ffonwich 02920 379580